O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 18 (Cy. 11)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 a Thraffordd yr M4 (Pont Afon Nedd a Thraphont Doc Llansawel, Castell-nedd Port Talbot) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*6 Ionawr 2011*
Yn dod i rym	*17 Ionawr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd y gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1.Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Ionawr 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 a Thraffordd yr M4 (Pont Afon Nedd a Thraphont Doc Llansawel, Castell-nedd Port Talbot) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn neu mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 17 Ionawr 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darn o'r draffordd" ("*the length of the motorway*") yw'r darn o draffordd yr M4 a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 3 yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A48 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar hyd naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio, ar hyd y darnau o'r ffordd feiciau/llwybr troed a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darnau o'r ffordd feiciau/llwybr troed a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar hyd y darnau o'r gefnffordd a'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

7.Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 i 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8.Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 6 Ionawr 2011

J COLLINS
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau

Y darnau o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o Gyfnewidfa Earlswood i Gylchfan Llansawel.

ATODLEN 2
Gwahardd beicwyr a cherddwyr

Y darnau o'r llwybrau troed/llwybrau beiciau tua'r dwyrain a thua'r gorllewin sy'n ymestyn o Gyfnewidfa Earlswood i Gylchfan Llansawel.

ATODLEN 3
Terfyn cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A483 hyd at bwynt 500 o fetrau i'r dwyrain o Gylchfan Llansawel, gan gynnwys prif gerbytffordd gylchredol y Gylchfan honno.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 42 (Earlswood) sy'n ymestyn o'r trwyniad ffisegol ar ddechrau'r ffordd ymadael hyd at ei chyffordd â'r A48.